BBC STUDIOS

# Telerau ac Amodau Gweithiwr sy'n Gyfrannwr Ar yr Awyr

## 1. Contract

1.1 Ar y gwahanol achlysuron pan fydd BBCSPL am dderbyn gwasanaeth gennych Chi (pob un **"Archeb"**), bydd manylion penodol yr Archeb honno wedi'u nodi yn nogfennau archebu BBCSPL a anfonir atoch Chi neu (os yw'n berthnasol) ar y ddalen flaen sydd ynghlwm wrth y telerau ac amodau hyn (y **"Dogfennau Archebu"**).

1.2 Gyda'i gilydd, mae'r Dogfennau Archebu a'r telerau ac amodau hyn yn ffurfio'r Contract rhyngoch Chi a BBCSPL.

1.3 Ar gyfer pob Archeb arall, ystyrir eich bod Chi wedi derbyn y Contract ar y dyddiad rydych Chi'n cadarnhau eich bod yn derbyn y Dogfennau Archebu.

## 2. Parti Contractio BBC Studios

2.1 Yn y telerau ac amodau hyn, mae "**BBCSPL**" yn is-gwmni o Grŵp y BBC a enwir yn y Dogfennau Archebu, ac mae cyfeiriad cofrestredig ei swyddfa yn: 1 Television Centre, 101 Wood Lane, London, W12 7FA.

## 3. Diffiniadau

Yn y telerau ac amodau hyn:

3.1 mae **"Chi"** yn golygu'r unigolyn a enwir yn y Dogfennau Archebu (y **"Cyfrannwr"**).

3.2 Os ydych Chi o dan 18 oed mae hwn yn Gontract: (a) y mae BBCSPL a'ch rhiant/gwarcheidwad Chi yn ymrwymo iddo ar eich rhan Chi; a (b) mae'n amodol ar gael unrhyw drwydded angenrheidiol o dan reoliadau perthnasol sy'n ymwneud â thrwyddedau plant.

3.3 mae **"Cyfraniad"** yn golygu pob cyfraniad, yn ogystal â chynhyrchion y gwasanaethau, a wneir a/neu a gyflwynir gennych Chi mewn cysylltiad â'r Contract hwn, gan gynnwys eich perfformiad Chi (yn ogystal ag ymarferion) a deunydd llafar, ysgrifenedig ac artistig (gan gynnwys recordiadau sain a fideo ohonynt) a ddarperir gennych Chi ond heb fod yn gyfyngedig i hynny, a lle mae BBCSPL wedi comisiynu recordiadau gennych Chi, byddwch Chi yn caffael bod recordiadau o'r fath yn eiddo = BBCSPL. At ddibenion cyfraith hawlfraint yr Unol Daleithiau, ystyrir y Cyfraniad fel "gwaith neu weithiau a wneir i'w llogi" ar gyfer BBCSPL.

## 4. Cyfraniad

4.1 Rydych Chi'n ymrwymo i ddarparu'r Cyfraniad i BBCSPL fel sy'n ofynnol o dan y Contract hwn yn ystod y cyfnod yr archeb fel y nodir yn y Dogfennau Archebu a'r Telerau ac Amodau hyn ar gyfer Gweithwyr, ac i gadw at holl delerau'r Contract a'u cyflawni.

4.2 Rydych Chi'n ymrwymo i fod yn bresennol fel y cytunwyd mewn cysylltiad â'r Cyfraniad.

4.3 Os yw'r Cyfraniad yn cynnwys deunydd ysgrifenedig, rydych Chi yn ymrwymo y bydd unrhyw ddeunydd ysgrifenedig o'r fath yn cydymffurfio â gofynion BBCSPL (fel y bydd BBCSPL yn eich hysbysu Chi amdanynt) o ran

cynnwys ac amseroedd cyflawni ac, os bydd angen, y byddwch Chi yn darparu deunydd ysgrifenedig ychwanegol i'w ddefnyddio mewn cyhoeddiadau sy'n ategol i'r Rhaglen(ni) ar yr un sail.

*Gwarantau*

4.4 Rydych Chi'n ymrwymo, yn gwarantu ac yn mynegi:

(a) Bod y Cyfraniad:

i. yn waith gwreiddiol gennych Chi (ac eithrio i'r graddau rydych Chi wedi rhoi gwybod i BBCSPL fel arall yn ysgrifenedig, a bod BBCSPL wedi cadarnhau ei barodrwydd i fwrw ymlaen cyn recordio neu ddarlledu'n fyw);

ii. ddim yn cynnwys, ac na fydd yn cynnwys, unrhyw beth sy'n torri unrhyw hawlfraint nac unrhyw hawliau eraill nac unrhyw drydydd parti, ac y byddwch Chi yn datgelu i BBCSPL unrhyw ddeunydd hawlfraint sydd wedi'i gynnwys yn y Cyfraniad lle nad Chi yw'r perchennog;

iii. ddim yn cynnwys deunydd a fydd yn dwyn anfri ar BBCSPL na'r darlledwr comisiynu perthnasol nac yn ddifenwol nac yn arwain at ddirmyg llys; a

iv. ddim yn cynnwys hysbysebion nac unrhyw beth o natur hysbysebu;

(b) na fyddwch Chi yn darlledu nac yn awdurdodi darlledu na defnydd arall o'r Cyfraniad cyfan nac unrhyw ran ohono;

(c) eich bod Chi yn meddu ar yr holl sgiliau, gallu, gwybodaeth a phrofiad angenrheidiol i gyflawni a darparu'r Cyfraniad fel cyfrannwr o'r radd flaenaf yn gydwybodol ac mewn modd proffesiynol bob amser, gan gydymffurfio'n llwyr ag unrhyw geisiadau rhesymol gan BBCSPL;

(d) y byddwch Chi yn defnyddio pob gofal a diwydrwydd priodol wrth ddarparu'r Cyfraniad;

(e) os yw'r Cyfraniad yn cynnwys darparu gwasanaethau fel arbenigwr ar bwnc, y byddwch Chi yn defnyddio'r gofal, y sgiliau a'r diwydrwydd priodol y byddai'n rhesymol eu disgwyl gan ddarparwr cymwys gwasanaethau o'r fath, ac rydych Chi yn gwarantu eich bod Chi, ac y byddwch Chi yn parhau, yn gwbl ymwybodol o'r safon uchaf yn eich maes arbenigedd Chi i lefel a fydd yn bodloni BBCSPL; ac

(f) os yw'r Cyfraniad yn cynnwys darparu gwasanaethau cyfieithu, y bydd eich cyfieithiad Chi yn gyfieithiad gwir a chwbl gywir o'r deunydd a ddarparwyd i Chi ei gyfieithu.

## 5. Ffi

5.1 Wrth ystyried y Cyfraniad a ddarperir gennych Chi a'r hawliau a roddir fel y nodir yng nghymal 9 (*Hawliau*), pan fydd hawliau o'r fath yn codi, mae BBCSPL yn cytuno i dalu i Chi y ffi a nodwyd yn y Dogfennau Archebu (y **"Ffi"**).

5.2 Gan y bydd BBCSPL yn didynnu treth incwm a chyfraniadau yswiriant gwladol Dosbarth 1 yn unol â chymal 8, ni fydd BBCSPL yn talu TAW ar y ffi.

5.3 Rydych Chi yn cydnabod bod y Ffi'n cynnwys cydnabyddiaeth deg a chyfartal mewn perthynas ag unrhyw achos o rentu neu fenthyca'r Cyfraniad.

5.4 Mae'r broses o dalu'r Ffi yn amodol arnoch Chi yn darparu i BBCSPL yr wybodaeth gyfredol a chywir sydd ei hangen ar BBCSPL i brosesu'r taliad ac i gydymffurfio â'i rwymedigaethau statudol, gan gynnwys eich rhif Yswiriant Gwladol/Nawdd Cymdeithasol Chi, eich enw cyfreithiol Chi a'ch dyddiad geni Chi, ymysg pethau eraill.

5.5 Gall y Dogfennau Archebu ddangos bod y Ffi'n daladwy mewn rhandaliadau misol neu wythnosol, er hwylustod gweinyddol ac er mwyn lleihau gorbenion a chynnal buddsoddiad ar y sgrin ar gyfer y sawl sy'n talu ffi'r drwydded. Mewn rhai achosion, bydd y Ffi yn cael ei chysoni yn ystod chwarter olaf y Cyfnod. Bydd unrhyw ordaliadau yn cael eu tynnu o randaliadau y rhagwelir y byddant yn ddyledus yn y chwarter olaf a bydd tandaliadau yn daladwy o fewn 30 diwrnod i dderbyn anfoneb mewn perthynas â'r un a gyflwynwyd gennych Chi ar ddiwedd y Cyfnod.

**6. Oriau Gwaith a Gwyliau**

6.1 Rydych Chi'n cytuno, dros gyfnod yr ymgysylltiad o dan y Contract hwn, y byddwch Chi yn gweithio'r cyfryw oriau sy'n angenrheidiol i gyflawni eich rhwymedigaethau Chi o dan y contract hwn. Mae Eich ymgysylltiad yn amodol ar ddarpariaethau Rheoliadau Amser Gwaith 1998 (fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd). Rydych Chi drwy hyn yn cydnabod ac yn cytuno y gall eich oriau gwaith Chi fod yn fwy na'r uchafswm oriau gwaith wythnosol yn ôl y gofynion hynny; ar yr amod fodd bynnag, y gallwch Chi dynnu'n ôl o gytundeb o'r fath drwy roi 3 mis o rybudd ysgrifenedig (neu, os yw'n fyrrach, cyfnod o rybudd ysgrifenedig sy'n cyfateb i gyfnod eich ymgysylltiad Chi) i BBCSPL unrhyw bryd yn ystod yr ymgysylltiad. Byddwch Chi yn cydymffurfio ag unrhyw geisiadau a wneir neu fesurau a osodir i alluogi BBCSPL i fonitro eich amser gwaith Chi a bydd methu â gwneud hynny'n golygu eich bod Chi yn torri'r Contract hwn yn sylweddol.

6.2 Mae gennych chi hawl i 5.6 wythnos o wyliau â thâl ym mhob blwyddyn wyliau (sy'n dechrau ar ddiwrnod cyntaf eich ymgysylltiad Chi o dan y Contract hwn), gan gynnwys gwyliau cyhoeddus a gwyliau banc (gydag "wythnos" yn cael ei chyfrifo drwy gyfeirio at nifer y diwrnodau rydych Chi yn eu gweithio yn ystod eich ymgysylltiad.) Dim ond ar ddyddiadau sydd wedi cael eu cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Uwch Gynhyrchydd/Golygydd o leiaf 6 wythnos ymlaen llaw y dylech chi gymryd y gwyliau rydych chi wedi'u cronni. Efallai bydd yr Uwch Gynhyrchydd/Golygydd yn gofyn i Chi gymryd gwyliau ar ddiwrnodau penodol. Bydd tâl gwyliau'n cael ei dalu pan fydd y gwyliau'n cael eu cymryd. Ar ddiwedd y Cyfnod, byddwch Chi yn cael eich talu yn lle unrhyw wyliau a gronnwyd yn y flwyddyn wyliau gyfredol ond na chawsant eu cymryd, neu bydd gofyn i Chi ad-dalu BBCSPL am unrhyw wyliau a gymerwyd sy'n fwy na'r hawl a gronnwyd gennych Chi.

**7. Treuliau**

7.1 Mewn rhai amgylchiadau ac yn unol â

Pholisi Treuliau presennol BBCSPL, mae'n bosibl y bydd unrhyw dreuliau y byddwch chi'n eu hwynebu, y gellir eu priodoli'n llwyr i'r Cyfraniad(au) rydych chi wedi'u darparu o dan y Contract hwn, yn daladwy yn ychwanegol at Ffioedd. Rhaid i hyn fod yn unol â pholisi treuliau BBCSPL a chael ei gymeradwyo gan yr

Uwch Gynhyrchydd neu Olygydd y Rhaglen(ni) (neu eu henwebeion) ymlaen llaw.

7.2 Efallai y byddai'n briodol i chi gael blaenswm, ar yr adegau hyn mae'n rhaid i chi roi tystiolaeth i BBCSPL bod y treuliau hynny wedi codi yn unol â pholisi treuliau BBCSPL, a bydd peidio â gwneud hynny yn rhoi'r hawl i BBCSPL ddidynnu swm y blaendaliadau hynny o'ch Ffi neu unrhyw daliadau eraill sy'n ddyledus o dan y Contract hwn.

**8. Treth Incwm a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol**

8.1 Gall Ffioedd fod yn ddarostyngedig i'r didyniadau a ganlyn:

(a) didyniadau mewn perthynas â threth incwm a chyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogai sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith neu y mae BBCSPL yn credu'n rhesymol y mae'n ofynnol iddo eu gwneud yn ôl y gyfraith, gan ystyried canllawiau a gyhoeddwyd gan CThEF

(b) unrhyw symiau, nad ydynt yn destun anghydfod fel arall, sy'n ddyledus i BBCSPL gennych Chi neu o dan gytundeb i ddarparu eich gwasanaethau Chi i BBCSPL, p'un a ydynt yn gysylltiedig â'r Contract hwn neu fel arall [troednodyn/nodiadau esboniadol], ac

(c) unrhyw ddidyniadau y mae'n ofynnol i BBCSPL eu gwneud o dan y gyfraith.

8.2 Pan fydd BBCSPL yn cynnig gwneud unrhyw ddidyniadau yn unol â'r cymal hwn bydd BBCSPL, i'r graddau y mae'n ymarferol, yn rhoi gwybod i Chi ymlaen llaw ac yn rhoi cyfle rhesymol i Chi herio unrhyw ddidyniad arfaethedig cyn iddo gael ei wneud, a bydd yn ystyried her o'r fath yn ddidwyll cyn gwneud unrhyw benderfyniad. Os bydd BBCSPL yn gwneud unrhyw ddidyniad y canfyddir yn nes ymlaen ei fod yn anghywir neu'n ddiangen, bydd BBCSPL yn talu swm i Chi sy'n cyfateb i ddidyniad o'r fath yn llawn fel dyled, ynghyd â llog ar y gyfradd llog taliadau hwyr berthnasol ar gyfer treth incwm y DU o'r dyddiad y gwnaed y didyniad tan y dyddiad talu

8.3 Os byddwch Chi yn hysbysu BBCSPL bod asiantaeth yn eich cynrychioli Chi, rydych Chi drwy hyn yn awdurdodi BBCSPL i dalu'r holl arian sy'n ddyledus o dan y Contract hwn i'r asiantaeth honno ac ni fydd gan BBCSPL unrhyw atebolrwydd pellach i Chi mewn perthynas ag unrhyw arian a dalwyd felly.

**9. Hawliau**

9.1 Rydych Chi'n aseinio gyda gwarant teitl llawn i BBCSPL yr holl hawlfraint, hawliau perfformwyr a'r holl hawliau cysylltiedig eraill (gan gynnwys unrhyw hawliau rhentu a benthyca) at bob diben (gan gynnwys defnydd yn yr holl gyfryngau sydd ar gael nawr neu yn y dyfodol) yn y Cyfraniad ledled y Bydysawd am gyfnod llawn yr hawlfraint.

9.2 Rydych Chi'n rhoi hawl digyfyngiad i BBCSPL olygu, copïo, newid, ychwanegu at, tynnu o, addasu neu gyfieithu'r Cyfraniad, ac, o safbwynt y Cyfraniad a'r Rhaglen(ni) a fydd yn cynnwys y Cyfraniad, rydych Chi yn ildio'n ddi-droi'n-ôl unrhyw "hawliau moesol" sydd gennych Chi o bosibl o dan ddeddfau unrhyw

awdurdodaeth.

**10. Cyfnod**
cyfnod

10.1 Bydd grym ac effaith y Contract yn dal ar waith yn llawn am y

a nodwyd yn y Dogfennau Archebu (y "**Cyfnod**").

10.2 Os bydd unrhyw rwymedigaethau wedi eu cyflawni eisoes gan unrhyw barti i unrhyw raddau, ystyrir i bob diben bod y rhwymedigaethau hynny wedi cael eu cyflawni yn unol â darpariaethau'r Contract hwn ac yn amodol arnynt.

10.3 I osgoi amheuaeth, mae'r rhwymedigaethau o dan gymalau 8 Treth Incwm a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol, 23 Indemniad, 21 Gwybodaeth Gyfrinachol, 24 (Peidio ag Aseinio), 26 (Hawliau Trydydd Parti), 31 Diogelu Data, 35 (Cyfraith Lywodraethu) yn ymestyn y tu hwnt i'r Cyfnod.

**11. Cymalau ychwanegol ar gyfer Archebion tymor hwy**

Ar gyfer Archebion o dri mis neu fwy, mae'r telerau canlynol yn berthnasol:

*Argaeledd*

11.1 Byddwch Chi yn rhoi o leiaf 8 wythnos o rybudd o unrhyw ddyddiadau ac amseroedd pan na fyddwch Chi ar gael i ddarparu'r Cyfraniad, ac unwaith y bydd y dyddiadau a'r amseroedd ar gyfer darparu'r Cyfraniad wedi eu cytuno gyda BBCSPL (**"Diwrnodau Galw"**), byddwch Chi yn gwneud Eich hun ar gael i BBCSPL ar y Diwrnodau Galw hynny. Gellid cytuno ar unrhyw ddiwrnod o'r flwyddyn fel Diwrnod Galw (gan gynnwys gwyliau cyhoeddus) ac mae diwrnod yn ddiwrnod llawn, oni nodir yn wahanol yma, ac yn para cyhyd ag y mae'r amserlen gynhyrchu yn pennu.

11.2 Ar gyfer Cyfraniadau cyflwyno rheolaidd, bydd Diwrnodau Galw yn cael eu nodi yn y Dogfennau Archebu fel patrwm dangosol o shifftiau cyflwyno a ddarperir mewn lleoliad cynhyrchu; bydd patrwm dangosol yn cael ei gynnwys yn yr Wybodaeth Ychwanegol am Gontract yn y Dogfennau Archebu a bydd yn cynnwys lleoliad cynhyrchu y bydd Eich Cyfraniad yn cael ei ddarparu ohono amlaf.

11.3 Weithiau, a lle bo hynny'n rhesymol, efallai y gofynnir i Chi gyflwyno ar leoliad (bydd BBCSPL yn talu am unrhyw deithio neu lety ychwanegol mewn perthynas â hynny). Pan fydd angen rhagor o amser i gyflawni'r Archeb ar gais BBCSPL, er enghraifft, os gofynnir i Chi deithio neu weithio y tu hwnt i'ch Diwrnodau Galw Chi a gytunwyd, efallai y bydd gennych Chi hawl, lle bo hynny'n rhesymol, i gael digolledid ychwanegol y dylid cytuno arno ymlaen llaw gyda'r Golygydd neu'r Uwch Gynhyrchydd (neu ei enwebai).

11.4 Byddwch yn sicrhau bod modd cysylltu â Chi a'ch bod ar gael yn ôl yr angen i ddarparu'r Cyfraniad ar unrhyw Ddiwrnodau Galw fel y nodwyd yn y Dogfennau Archebu. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, mae'r ymrwymiad lleiaf (sut bynnag y caiff ei ddehongli, hynny yw, p'un ai o ran dyddiau neu sioeau neu benodau ac ati) yn seiliedig arnoch Chi yn sicrhau eich bod Chi ar gael i gyflawni'r ymrwymiad lleiaf, ac os na fyddwch Chi

ar gael felly, am unrhyw reswm, bydd y Ffi (gan gynnwys unrhyw warant isafswm) yn cael ei lleihau'n gymesur.

*Gwasanaethau ategol sydd wedi'u cynnwys yn y Cyfraniad*

11.5 Er mwyn darparu'r Cyfraniad, byddwch chi'n darparu'r holl wasanaethau ategol rhesymol (rhaid i Chi wneud rhai ohonynt yn Eich amser eich hun ac ysgwyddo'r gost Eich hun), fel:

(a) paratoi, bod yn bresennol, ymddangos yn y golwg ac allan o'r golwg / ar yr awyr ac oddi ar yr awyr;

(b) darparu dillad priodol (fel y disgrifir isod), yn achos Archeb yn y golwg

(c) mewnbwn creadigol i gynhyrchu cynnwys (gan gynnwys, pan gytunir bod hyn yn rhan o'ch rôl, ymchwilio, ysgrifennu a golygu Eich cyfraniadau/blogiau llafar ac ysgrifenedig eich hun a chynnwys cysylltiedig arall, gan eu hadolygu yn ôl y gofyn o bryd i'w gilydd);

(d) teithio fel y mae BBCSPL yn credu sy'n rhesymol angenrheidiol (a bydd gennych Chi basbort dilys drwy gydol y Cyfnod, a byddwch yn cydweithredu'n llawn â BBCSPL i gael unrhyw drwyddedau gwaith a fisâu ac ati sy'n angenrheidiol i ddarparu'r Cyfraniad); ac

(e) y wasg, hyrwyddo a thrêls.

*Dillad priodol*

11.6 Serch darpariaethau cymal 13 *(Safonau Golygyddol, Rheoleiddio Darlledu, Gwrthdaro rhwng Buddiannau):*

(a) mae "dillad priodol" y cyfeirir ato uchod yn eithrio dillad a roddwyd i Chi neu a werthwyd i Chi am gost is gan y brand/gwneuthurwr/siop, oni bai fod y gostyngiad pris ar gael yn gyffredinol i aelodau o'r cyhoedd; ac

(b) er eglurder, ac mewn perthynas ag ymddangosiadau yn y golwg yn unig, os oes gennych Chi unrhyw drefniadau ynghylch cyflenwi dillad i'w defnyddio am ddim neu am bris gostyngol neu'n gyfnewid am fuddion eraill, fel un o ragamodau'r Contract hwn mae'n rhaid i Chi fod wedi rhoi gwybod i BBCSPL am hynny cyn derbyn yr Archeb. Chewch Chi ddim gwisgo dillad o'r fath wrth ddarparu'r Cyfraniad.

*Darparu gwasanaethau i drydydd partïon*

11.7 Er mwyn diogelu gwerth yr Archeb hon i BBCSPL rydych Chi yn cytuno na ddylech Chi, heb ymgynghori'n briodol â BBCSPL, ddarparu'r un gwasanaethau neu gyfraniadau na rhai tebyg i gynhyrchydd na darlledwr sain a/neu weledol arall pan fyddai cynnyrch y gwasanaethau neu'r cyfraniadau hynny: (i) ar gael i gynulleidfaoedd yn y DU neu yng Ngweriniaeth Iwerddon ar yr un pryd neu tua'r un pryd â'r Rhaglen; a/neu (ii) yn gwrthdaro â chymal 13 (*Safonau Golygyddol*).

*Atal dros dro*

11.8 Mae gan BBCSPL hawl i atal y Contract hwn am hyd at 3 mis os yw'n credu'n rhesymol eich bod Chi:

(a) wedi ymddwyn mewn modd sydd, neu y gellid ystyried ei fod, yn mynd yn groes i gymal 13 *(*Safonau golygyddol, rheoleiddio darlledu a gwrthdaro rhwng buddiannau) neu gymal 14 (Ymddygiad a ddisgwylir) a/neu a allai ddwyn anfri ar BBCSPL neu'r darlledwr comisiynu perthnasol; neu

(b) wedi torri'r Contract hwn yn sylweddol.

11.9 Mewn amgylchiadau o'r fath:

(a) bydd y Contract yn cael ei atal dros dro ar unwaith, gyda BBCSPL yn rhoi rhybudd ysgrifenedig i Chi;

(b) caiff BBCSPL, yn ôl ei ddisgresiwn absoliwt, leihau'r Ffi yn unol â swm sy'n gymesur â'r cyfnod atal dros dro;

(c) bydd telerau'r Contract hwn yn dal yn berthnasol, ac eithrio nad oes rhaid i BBCSPL dalu'r Ffi, ac nad oes rhaid i chi ddarparu'r Cyfraniad;

(d) bydd gan BBCSPL, yn ôl ei ddisgresiwn llwyr, yr hawl i atal y Contract hwn dros dro, ac ni fydd yn cyfyngu mewn unrhyw ffordd ar hawliau BBCSPL mewn rhannau eraill o'r Contract hwn;

(e) bydd gan BBCSPL yr hawl i derfynu'r Contract hwn yn ystod neu erbyn diwedd y cyfnod atal dros dro;

(f) caiff BBCSPL, yn ôl ei ddisgresiwn absoliwt, ddod â'r cyfnod atal dros dro i ben yn gynnar drwy roi pythefnos o rybudd ysgrifenedig i Chi;

(g) er eglurder, os yw Eich ymddygiad honedig hefyd yn destun ymchwiliad gan yr heddlu ("Ymchwiliad") a bod y Contract hwn yn cael ei atal dros dro yn hytrach na'i derfynu, ni fydd gennych Chi hawl i'r gyfran o'r Ffi a allai fel arall fod wedi cael ei thalu yn ystod y cyfnod atal dros dro, hyd yn oed os na fydd cyhuddiadau'n cael eu dwyn neu os bydd cyhuddiadau'n cael eu gollwng a/neu os cewch Chi eich dyfarnu'n ddieuog o'r holl gyhuddiadau;

(h) os nad yw canlyniad unrhyw Ymchwiliad a/neu ganlyniad erlyniad troseddol yn hysbys cyn diwedd y cyfnod atal dros dro, bydd hyn yn ddigwyddiad force majeure o dan gymal 22 (Terfynu).

11.10 I osgoi unrhyw amheuaeth, os caiff y Contract hwn ei atal dros dro o dan y cymal hwn:

(a) bydd yr holl hawliau a ganiateir drwy hyn a/neu a roddir i BBCSPL yn dal wedi eu breinio i BBCSPL;

(b) bydd rhwymedigaethau cymalau 21 (Gwybodaeth gyfrinachol) a 23 (Indemniad) yn dal yn berthnasol;

(c) bydd unrhyw Ffi sydd heb ei thalu am unrhyw ran o'r Cyfraniad a ddarparwyd cyn y cyfnod atal dros dro yn dal yn daladwy;

(d) ni fydd unrhyw gyfnod atal dros dro yn ymestyn y tu hwnt i Gyfnod y Contract

**12. Rheolaeth olygyddol**

12.1 Rydych Chi'n cydnabod mai'r darlledwr comisiynu perthnasol sydd â'r rheolaeth olygyddol derfynol dros yr holl gynnwys BBCSPL rydych chi'n cyfrannu ato.

12.2 Rydych Chi'n cydnabod y gall teitl/teitlau y Rhaglen a dyddiad ac

amser darlledu/rhyddhau'r Rhaglen/Rhaglenni newid yn ôl disgresiwn y darlledwr comisiynu perthnasol.

12.3 Rydych Chi'n cydnabod nad oes unrhyw rwymedigaeth i ddarlledu na defnyddio'r Cyfraniad mewn ffordd arall, ac ni fydd BBCSPL na'r darlledwr comisiynu perthnasol yn atebol i Chi am golli cyhoeddusrwydd neu fel arall o ganlyniad.

**13. Safonau golygyddol, rheoleiddio darlledu, gwrthdaro rhwng buddiannau**

13.1 Drwy dderbyn yr Archeb hon, rydych Chi'n gwarantu bod gennych Chi ddealltwriaeth dda a chyfredol o'r cyfreithiau a'r rheoliadau y mae'n rhaid i ddarlledwyr gydymffurfio â nhw, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i God Darlledu Ofcom ("**Cod Ofcom**"). Mae BBCSPL yn cynhyrchu yn unol â Chod Ofcom, Canllawiau Golygyddol y BBC a'r canllawiau cysylltiedig, (gyda'i gilydd y "**Safonau Golygyddol**") ac rydych Chi'n cadarnhau eich bod yn gyfarwydd â'r dogfennau hynny ac yn eu deall (fel y cânt eu diwygio a'u diweddaru o bryd i'w gilydd).

13.2 Ystyrir y bydd y Contract hwn wedi cael ei dorri'n sylweddol os bydd Eich gweithredoedd neu eich anweithredoedd Chi yn golygu bod BBCSPL neu'r darlledwr comisiynu perthnasol yn torri ei rwymedigaethau rheoleiddiol fel y nodir yn y ddarpariaeth hon.

13.3 Rydych Chi yn cydnabod bod enw da BBCSPL a'r darlledwr comisiynu perthnasol am ddidueddrwydd ac uniondeb ac am fod yn annibynnol ac yn weddus yn gwbl sylfaenol, ac felly'n cytuno na fydd unrhyw ran o'r Cyfraniad na'ch Gweithgarwch a'ch ymddygiad Chi yn peryglu unrhyw rai o'r uchod, na'u tanseilio na chodi amheuaeth yn eu cylch, nac yn ymddangos eu bod yn eu peryglu neu'n codi amheuaeth yn eu cylch, a rhaid iddynt beidio â dwyn anfri ar BBCSPL, y darlledwr comisiynu perthnasol, na'i gynnwys.

13.4 Ar sail gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd amdanoch Chi a'ch gweithgareddau busnes a'ch buddiannau allanol Chi, mae BBCSPL yn fodlon na ddylai unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau godi mewn perthynas â'r Archeb hon. Fodd bynnag, un o ragamodau'r Contract hwn yw eich bod Chi wedi datgan unrhyw wrthdaro posibl yn unol ag Adran 15 o'r Safonau Golygyddol.

13.5 Os byddwch Chi, yn ystod y Cyfnod, yn ystyried ymgymryd ag unrhyw waith neu weithgareddau eraill rydych Chi yn credu a allai achosi, neu y gellid ystyried eu bod yn achosi, gwrthdaro o'r fath, dylech Chi ei godi gyda'ch prif gyswllt golygyddol Chi a bydd BBCSPL yn rhoi arweiniad arbenigol i hwyluso cydymffurfedd parhaus. Os bydd gwrthdaro'n bodoli neu'n codi, mae'n bosibl na fydd BBCSPL yn gallu defnyddio'r Cyfraniad o gwbl, neu ran ohono, a byddai BBCSPL yn trin hynny fel achos lle rydych Chi wedi torri'r Contract hwn yn sylweddol.

13.6 Bydd y cymal 13 hwn yn parhau mewn grym: (a) drwy gydol y Cyfnod os yw'r Cyfraniad cyfan wedi bod ar gael i'r cyhoedd erbyn y dyddiad hwnnw ac nad yw'r Cyfraniad ar gael mwyach ar wasanaethau ar-lein y darlledwr comisiynu perthnasol neu (b) tan y cynharaf o'r canlynol: (i) 30 diwrnod ar ôl y dyddiad

y mae'r Cyfraniad cyfan wedi bod ar gael i'r cyhoedd ac nad yw ar gael mwyach ar wasanaethau ar-lein y darlledwr comisiynu perthnasol; a (ii) 12 mis ar ôl diwedd y Cyfnod, ac eithrio pan fydd amgylchiadau lle gallai'r darlledwr comisiynu perthnasol ofyn am gyfnod hirach i sicrhau uniondeb golygyddol parhaus. Mewn achosion o'r fath, bydd y partïon yn cytuno rhyngddynt yn ddidwyll ar amrywiad priodol.

**14. Ymddygiad Disgwyliedig**

14.1 Yn ystod Eich ymgysylltiad, byddwch Chi'n cydymffurfio â Chod Ymddygiad y BBC a Gwerthoedd y BBC sydd wedi cael eu mabwysiadu gan BBCSPL. Byddwch Chi hefyd yn cydymffurfio â'r polisïau a'r canllawiau sy'n berthnasol i'ch ymgysylltiad Chi, sydd ar gael yma: Polisïau a Chanllawiau. Os byddwch chi'n gweld pobl eraill sy'n gweithio yn y BBC yn ymddwyn mewn ffordd nad yw'n cyd-fynd â Chod Ymddygiad y BBC a Gwerthoedd y BBC, gallwch godi hyn yn unol â'r Cod Ymddygiad. Mae'n rhaid bodloni'r safonau ymddygiad hyn, a gallai peidio â gwneud hynny olygu bod y contract hwn wedi cael ei dorri'n sylweddol.

**15. Iechyd**

15.1 Rydych Chi'n gwarantu nad ydych Chi yn gwybod am unrhyw gyflwr iechyd a allai effeithio ar eich gallu Chi i ddarparu'r Cyfraniad neu a allai atal BBCSPL rhag cael yswiriant cynhyrchu ar delerau safonol.

15.2 Rydych Chi yn cytuno i ddychwelyd (o fewn 7 diwrnod) unrhyw fath o ddatganiad iechyd y bydd BBC SPL yn ei gyflwyno i Chi i'w lenwi.

15.3 Yn ôl y gofyn, byddwch Chi yn cael archwiliad meddygol gan archwilydd meddygol cymwys (ar gost BBCSPL) pan fydd BBCSPL yn credu'n rhesymol fod hynny'n angenrheidiol. Ni fydd unrhyw beth yn y cymal hwn yn effeithio ar rwymedigaethau BBCSPL o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 nac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall.

**16. Offer/yswiriant**

16.1 Os yw'n berthnasol, Chi sy'n gyfrifol am reoli, diogelu, yswirio, cynnal a chadw a gofalu am unrhyw offer a deunyddiau a ddarperir gennych Chi er mwyn darparu'r Cyfraniad.

16.2 Mae manylion trefniadau Yswiriant perthnasol BBCSPL sydd ar gael i Chi pan fyddwch yn gweithio i BBCSPL o dan y Contract hwn i'w gweld yma ar Borth Gweithwyr Llawrydd y BBC ar wefan y BBC.

16.3 Byddwch yn caffael yswiriant o'r fath a fydd yn eich barn Chi yn angenrheidiol ar gyfer eich anghenion Chi eich hun (gan gynnwys unrhyw anghenion personol ac anghenion Eich dibynyddion). Chi fydd yn gyfrifol am reoli, diogelu, yswirio, cynnal a chadw, a gofalu am unrhyw gyfarpar a deunyddiau a ddarperir gennych Chi (neu unrhyw berson sy'n gysylltiedig â Chi) i gyflawni'r Cyfraniad.

**17. Pensiwn** trefniant

17.1 Mae'r Llywodraeth yn mynnu bod y rhai sy'n ymgysylltu yn darparu pensiwn yn y gweithle ar gyfer eu gweithwyr, gelwir hyn yn "gofrestru awtomatig am bensiwn" ("PAE"). Mae BBCSPL wedi dewis NEST (Ymddiriedolaeth Cynilion Cyflogaeth Cenedlaethol)

fel ei ddarparwr PAE. Mae BBCSPL yn cadw’r hawl i ddefnyddio darparwr arall ar wahân i NEST o ran PAE unrhyw bryd yn y dyfodol.

17.2 Mae BBCSPL wedi dewis gohirio cofrestru awtomatig am dri mis; felly (ar yr amod eich bod Chi yn bodloni meini prawf penodol, gan gynnwys o ran eich oedran a'ch enillion) byddwch Chi yn cael eich cofrestru â NEST yn awtomatig dri mis ar ôl dechrau'r Cyfnod. Bydd rhagor o fanylion am NEST, a fydd angen eich cofrestru Chi yn awtomatig, a'r buddion pensiwn sydd ar gael i Chi yn ystod eich Archeb yn cael eu darparu i Chi ar ôl i Chi ddechrau gweithio i BBCSPL. Os byddwch Chi yn cael eich cofrestru â NEST yn awtomatig, gallwch Chi ddewis optio allan o NEST ond dim ond ar ôl i Chi gael eich cofrestru'n awtomatig.

17.3 Hefyd, os oes gennych Chi dipyn o gynilion pensiwn eisoes a'ch bod wedi cofrestru ar gyfer statws Gwarchodaeth Benodol neu Warchodaeth Uwch gyda CThEF yn y gorffennol, dylech Chi fod yn ymwybodol y gallai ymuno â chynllun pensiwn gyda BBCSPL wneud i Chi golli budd eich Gwarchodaeth Benodol neu Uwch yn y dyfodol. Os ydych Chi yn credu y gallai hyn fod yn berthnasol i chi, byddai BBCSPL yn argymell eich bod Chi yn gofyn am gyngor ariannol annibynnol ynghylch eich buddion pensiwn a'ch sefyllfa o ran treth.

17.4 Rydych Chi yn ymrwymo i roi Eich enw cyfreithiol i BBCSPL er mwyn iddo allu cyflawni ei rwymedigaethau o dan ddeddfwriaeth Cofrestru'n Awtomatig am Bensiwn.

## 18. Statws Cyflogaeth

18.1 Contract i ddarparu Cyfraniad yn bersonol yw hwn. Ni fydd unrhyw beth yn y Contract hwn yn eich gwneud Chi yn gyflogai i BBCSPL ac ni fyddwch Chi yn portreadu Eich hun felly. Y bwriad yw eich bod Chi yn "weithiwr" dan adran 230(3)(b) o Ddeddf Hawliau Cyflogi 1996. Bwriedir hefyd i chi fod yn "weithiwr" at ddibenion Rheoliadau Amser Gwaith 1998 a Deddf Isafswm Cyflog Cenedlaethol 1998. At ddibenion adran 83(2) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, rydych Chi wedi ymrwymo i gontract yn bersonol i wneud gwaith.

18.2 Nid yw BBCSPL yn atebol am unrhyw daliadau cyflogaeth statudol fel (heb gyfyngiad) tâl dileu swydd sut bynnag y byddai'n codi. Mae gennych Chi hawl i daliadau statudol penodol sy'n daladwy i weithwyr.

18.3 Chi eich hun sy'n gyfrifol am Eich cynlluniau ariannol a'ch cyngor treth eich hun, ac nid yw BBCSPL yn derbyn unrhyw atebolrwydd yn hyn o beth. Cynigir y Contract hwn yng nghyswllt y Cyfraniad yn unig ac nid mewn unrhyw gyd-destun ehangach, y tybir bod gennych Chi a'ch cynghorwyr wybodaeth amdano.

**19. Absenoldeb Salwch** 19.1 Os nad ydych Chi yn gallu gweithio ar y dyddiadau a gytunwyd, rhaid i Chi roi gwybod i'r Uwch Gynhyrchydd/Golygydd cyn gynted â phosibl beth yw'r rheswm dros Eich absenoldeb.

19.2 Os ydych Chi'n bodloni'r amodau cymhwyso a bennwyd gan y gyfraith, bydd gennych Chi hawl i dâl salwch statudol ar y gyfradd bresennol mewn perthynas ag unrhyw gyfnod o absenoldeb salwch yn ystod eich ymgysylltiad Chi, ond ni fydd gennych Chi hawl i unrhyw daliadau eraill gan BBCSPL yn ystod cyfnod o'r fath.

**20. Gwiriadau Cofnod Troseddol**

20.1 Rydych Chi yn cytuno i gael gwiriad DBS/ymaelodi â chynllun PVG os yw BBCSPL yn credu bod hynny'n briodol.

**21. Gwybodaeth gyfrinachol**

21.1 Ni fyddwch Chi, ar unrhyw adeg yn ystod Cyfnod y Contract nac ar unrhyw adeg ar ôl ei derfynu, yn datgelu unrhyw wybodaeth gyfrinachol i unrhyw drydydd parti (ac eithrio eich cynghorwyr proffesiynol neu pan fydd yn ofynnol datgelu gwybodaeth yn ôl y gyfraith, corff rheoleiddiol neu lys ag awdurdodaeth gymwys), gan gynnwys telerau cyfrinachol y Contract hwn ac unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â busnes, materion a chyllid BBCSPL neu'r darlledwr comisiynu perthnasol (gan gynnwys allbwn, a gwybodaeth breifat am unigolion y dewch Chi ar ei thraws yn ystod Eich Archeb). Ni fydd y cymal hwn yn cynnwys gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd neu a ddaw ar gael i'r cyhoedd wedyn ac eithrio drwy weithred neu anweithred gennych Chi. Nid oes dim yn y cymal hwn yn eich atal Chi rhag gwneud datgeliad tâl perthnasol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

21.2 Nid oes dim yn y cymal hwn yn eich atal Chi rhag:

(a) (a) gwneud datgeliad tâl perthnasol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010; neu

(b) (b) gwneud datgeliad cymwys fel y'i diffinnir gan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998.

**22. Terfynu**

22.1 Bydd gan BBCSPL yr hawl i derfynu'r Contract hwn ar unrhyw adeg:

(a) os bydd ei berfformiad yn cael ei atal oherwydd force majeure (gan gynnwys analluogrwydd corfforol neu salwch ardystiedig sy'n golygu nad ydych Chi yn gallu darparu rhan o'r Cyfraniad neu'r Cyfraniad cyfan);

(b) os bydd unrhyw achos arall y tu hwnt i reolaeth resymol BBCSPL yn atal ei berfformiad, yn amodol ar dalu cyfran deg o'r Ffi fel y pennir gan BBCSPL ar ôl trafod gyda Chi am waith sydd eisoes wedi'i wneud hyd at y dyddiad terfynu;

(c) os byddwch Chi yn torri amodau unrhyw un o ddarpariaethau'r Contract ac:

I. (os oes modd unioni'r tor-amod) na fyddwch Chi yn ei unioni cyn pen saith (7) diwrnod (neu gyfnod byrrach y byddai'n rhesymol i BBCSPL ofyn amdano) ar ôl cael hysbysiad ysgrifenedig yn nodi'r tor-amod ac yn mynnu ei fod yn cael ei unioni; neu

II. nad oes modd unioni'r tor-amod; neu

III. bod y tor-amod yn un sylweddol neu'n torri amod

BBC STUDIOS

arwyddocaol;

(d) os ydych Chi yn torri amodau dro ar ôl tro neu os na fyddwch Chi yn cadw at unrhyw un o delerau ac amodau'r Contract hwn;

(e) os yw canlyniadau unrhyw archwiliad meddygol a gynhaliwyd o dan gymal 15 (Iechyd) uchod yn golygu na all BBCSPL gael yswiriant cynhyrchu ar delerau sy’n dderbyniol i BBCSPL;

(f) os na fyddwch Chi yn derbyn gwiriad DBS neu’n ymaelodi â chynllun PVG, pa un bynnag sy’n berthnasol (pan fydd hyn yn ofynnol er mwyn darparu’r Cyfraniad);

(g) os byddwch Chi yn dioddef digwyddiad ansolfedd o dan unrhyw ddeddf sy'n ymwneud â methdaliad, ansolfedd neu ryddhad dyledwyr unrhyw le yn y byd;
(h) am unrhyw reswm arall yn amodol ar dalu'r Ffi lawn neu gynnig dyddiad(au) eraill fel y bydd BBCSPL yn penderfynu sy'n rhesymol.

22.2 Bydd unrhyw derfynu o dan y cymal hwn yn digwydd heb niweidio unrhyw hawliau na rhwymedïau eraill sy'n eiddo i BBCSPL a'r hawliau a roddir o dan gymal 9 (Hawliau) mewn perthynas ag unrhyw Gyfraniad a wneir cyn y dyddiad terfynu.

**23. Indemniad**

23.1 Byddwch Chi bob amser yn indemnio BBCSPL a'r darlledwr comisiynu perthnasol yn llawn mewn perthynas ag unrhyw ganlyniadau a allai ddilyn ar ôl i Chi dorri unrhyw rwymedigaethau neu warantau a roddwyd gennych Chi o dan y Contract hwn, sy'n deillio o'ch gweithredoedd neu'ch anweithredoedd bwriadol neu esgeulus Chi.

23.2 Bydd yr indemniadau a'r rhwymedigaethau a nodir yn y cymal hwn yn goroesi terfynu'r Contract hwn.

**24. Peidio ag aseinio**

24.1 Ni fyddwch yn aseinio, yn trosglwyddo, yn arwystlo nac yn delio mewn unrhyw ffordd arall â'r Contract hwn nac yn isgontractio eich holl rwymedigaethau Chi, nac unrhyw un o'ch rhwymedigaethau Chi, o dan y contract hwn.

**25. Sicrwydd pellach**

25.1 Rydych chi'n cytuno i gwblhau pob dogfen arall o'r fath, neu i achosi i bob dogfen arall o'r fath gael ei chwblhau, neu i wneud pob gweithred bellach a phethau y gallai BBCSPL fynnu o bryd i'w gilydd, neu i achosi i'r rheini gael eu gwneud, er mwyn rhoi effaith i ddarpariaethau'r Contract hwn, sy'n cynnwys, ymysg pethau eraill, breinio a sicrhau i BBCSPL a'i olynwyr yn y teitl holl fudd yr asedau, yr hawliau a'r manteision i'w trosglwyddo neu i'w rhoi i BBCSPL o dan y Contract hwn ac er mwyn diogelu a gorfodi hynny ac fel arall er mwyn rhoi effaith lawn i delerau'r Contract.

**26. Trydydd Partïon**

26.1 Ac eithrio o ran aelodau grŵp cwmnïau'r BBC, nid yw'r Contract hwn yn creu nac yn casglu hawliau o dan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999, na ellir eu gorfodi gan unrhyw un nad yw'n barti yn y Contract hwn.

**27. Toradwyedd**

27.1 Ni fydd y ffaith na ellir gorfodi unrhyw ddarpariaeth benodol yn y Contract hwn yn effeithio ar natur rwymol gweddill y Contract.

**28. Dim hawlildiad**

28.1 Ni ystyrir y bydd methiant unrhyw barti i arfer neu i orfodi unrhyw hawl a roddwyd iddo gan y Contract hwn yn golygu ildio unrhyw hawl o'r fath nac yn atal hawl o'r fath rhag cael ei gweithredu neu ei gorfodi ar unrhyw adeg ar ôl hynny.

**29. Cyfyngiad ar atebolrwydd**

29.1 Ni fydd BBCSPL yn atebol i Chi nac i'ch cynrychiolwyr cyfreithiol am unrhyw golled, difrod neu anaf a achoswyd i chi'n bersonol neu

i'ch eiddo mewn cysylltiad â'r Contract hwn oni bai fod hynny wedi'i achosi gan esgeulustod BBCSPL ac yn adferadwy ar y sail honno.

29.2 Os bydd BBCSPL yn torri unrhyw un o delerau'r Contract hwn, bydd eich datrysiadau cyfreithiol chi wedi eu cyfyngu i adennill iawndal yn unig ac ni fydd gennych Chi yr hawl i atal y Cyfraniad rhag cael ei gynhyrchu, ei gyfathrebu i'r cyhoedd, ei hyrwyddo na'i ddefnyddio gan BBCSPL neu fel yr awdurdodwyd gan y BBC.

**30. Hawl i Weithio**

30.1 Mae unrhyw Archeb a wneir o dan y telerau hyn yn amodol ar fod gennych Chi hawl i weithio yn y DU, ac ar gynnal yr hawl honno. Os na fyddwch yn darparu tystiolaeth foddhaol o'ch hawl i weithio yn y DU cyn dechrau ar eich ymgysylltiad, gallai hynny arwain at derfynu'r contract.

**31. Diogelu Data**

31.1 **Eich preifatrwydd:**
Mae BBCSPL yn gyfrifol am drin data personol rydych chi'n ei ddarparu, gan gynnwys eich cyfraniad, yn unol â'r gyfraith diogelu data. Mae gan BBCSPL fuddiant dilys mewn defnyddio'ch data personol at ddibenion newyddiadurol, artistig a llenyddol ac er mwyn cyflawni eich contract gyda BBCSPL a chyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol BBCSPL. Mae'n bosibl y byddwch hefyd yn darparu data categori arbennig neu ddata trosedd a allai gael ei ddefnyddio at ddibenion newyddiaduraeth, y celfyddydau a llenyddiaeth neu ddiben arall a ganiateir gan y gyfraith. I gael rhagor o wybodaeth am sut mae BBCSPL yn defnyddio eich data personol a'ch hawliau, ewch i BBC Studios contributors privacy notice.

31.2 **Trin data personol:**
Mae "Cyfraith Diogelu Data" yn golygu Deddf Diogelu Data 2018, lle bo'n berthnasol, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016/679/EU ("GDPR") a/neu GDPR fel y'i deddfir gan y Deyrnas Unedig ("GDPR y DU"), ac unrhyw ddeddfau perthnasol eraill sy'n ymwneud â phrosesu Data Personol o dan y Contract, Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig (Cyfarwyddeb CE) 2003, a'r holl reoliadau, codau ymarfer rheoleiddiol, safbwyntiau a chanllawiau cysylltiedig, gan gynnwys rhai a gyhoeddir gan y Comisiynydd Gwybodaeth

31.3 Bydd gan gyfeiriadau at y termau "**rheolydd**", "**testun data**", "**data personol**", "**tor diogelwch data personol**", "**prosesu**" a "**prosesydd**" yr ystyron a roddir iddynt yn y Gyfraith Diogelu Data.

31.4 Rydych Chi a BBCSPL yn cydnabod mai BBCSPL yw'r rheolydd a Chi yw'r prosesydd at ddibenion y Gyfraith Diogelu Data a'ch Archeb Chi.

31.5 Mewn perthynas ag unrhyw ddata personol (gan gynnwys data personol sy'n ymwneud â chyflogeion, cyflenwyr, cynulleidfaoedd neu drydydd partïon eraill BBCSPL ("**Data Personol y BBC**")) rhaid i chi wneud y canlynol:

a) prosesu Data Personol BBCSPL yn unol â chyfarwyddiadau BBCSPL;
b) sicrhau bod pawb sydd ag awdurdod i brosesu Data Personol BBCSPL, gan gynnwys Chi eich hun, yn rhwym wrth ddyletswydd cyfrinachedd;
c) sicrhau bod Data Personol BBCSPL yn cael ei brosesu'n

ddiogel bob amser, gan ystyried natur, cwmpas, cyd-destun a dibenion y prosesu yn ogystal â'r risgiau i hawliau a rhyddid unigolion, sy'n amrywio o ran eu tebygolrwydd a'u difrifoldeb;

d) cydymffurfio â holl Ofynion Diogelu Gwybodaeth y BBC i Drydydd Partïon, sydd wedi cael eu mabwysiadu gan BBCSPL, fel y byddant yn cael eu diwygio o bryd i'w gilydd yn ôl disgresiwn llwyr BBCSPL;

e) peidio â chyflogi Prosesydd arall i ymgymryd â phrosesau penodol.

f) helpu BBCSPL i wneud y canlynol: (1) ymateb i unrhyw gais gan destun data; (2) delio â thor diogelwch data personol yn unol â rhwymedigaethau BBCSPL o dan y Gyfraith Diogelu Data; a (3) cydymffurfio ag unrhyw rwymedigaethau y mae'r Gyfraith Diogelu Data yn eu gosod ar BBCSPL, gan gynnwys cynnal asesiad o effaith diogelu data;

g) rhoi gwybod i BBCSPL ar unwaith ac, yn sicr, cyn pen 24 awr ar ôl i Chi ddod i sylweddoli neu gredu'n rhesymol y bu achos o dor diogelwch data personol mewn perthynas â Data Personol BBCSPL.

h) ar gais ysgrifenedig BBCSPL, dileu neu ddychwelyd Data Personol BBCSPL (ac unrhyw gopïau ohono) i BBCSPL ar ddiwedd Eich ymgysylltiad.

i) cadw cofnodion a gwybodaeth gyflawn a chywir i ddangos cydymffurfedd â'r cymal hwn a chaniatáu i BBCSPL neu archwilydd dynodedig BBCSPL gynnal archwiliadau; a

j) rhoi gwybod i BBCSPL ar unwaith os byddwch Chi yn credu'n rhesymol bod unrhyw un o'r cyfarwyddiadau a roddwyd i Chi gan BBCSPL yn torri'r Gyfraith Diogelu Data.

31.6 Ni fyddwch yn gwneud y canlynol:

(a) datgelu unrhyw Ddata Personol BBCSPL i unrhyw un nad yw wedi'i awdurdodi gan gyfraith neu gan bolisi BBCSPL i gael gweld yr wybodaeth honno; a

(b) ac eithrio fel y mae'r Contract hwn yn caniatáu, defnyddio Data Personol BBCSPL at unrhyw ddibenion eraill, gan gynnwys dibenion marchnata.

31.7 Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, nid ydych Chi a BBCSPL yn rheolyddion ar y cyd, ac ni fydd Erthygl 26 GDPR/GDPR y DU yn berthnasol.

## 32 Dehongliad

Ni fydd penawdau'r cymalau na nodiadau esboniadol yn effeithio ar y dehongliad o'r Contract hwn.

32.2 Oni bai fod y cyd-destun yn ei gwneud yn ofynnol fel arall, mae geiriau yn y modd unigol yn cynnwys y lluosog, a'r lluosog yn cynnwys yr unigol, a bydd cyfeiriad at un rhywedd yn cynnwys cyfeiriad at y rhywedd arall. Mae cyfeiriad at ysgrifennu yn cynnwys e-bost. Mae cyfeiriad at statud neu ddarpariaeth statudol yn gyfeiriad ati fel y bydd yn cael ei diwygio, ei hymestyn neu ei hailddeddfu o bryd i'w gilydd; ac mae'n cynnwys pob is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y statud neu'r ddarpariaeth statudol honno. Bydd y geiriau "yn cynnwys" neu "gan gynnwys" yn golygu heb gyfyngiad, ac ni fwriedir iddynt sefydlu rhestr ddiffiniol oni nodir yn wahanol.

**33 Cytundeb Cyfan**

33.1 Bydd y Contract hwn bob amser yn drech na’r holl delerau ac amodau eraill y gallech Chi honni eu bod yn berthnasol. Dim ond drwy gytundeb ysgrifenedig ymlaen llaw rhwng y partïon y gellir diwygio’r Contract hwn.

33.2 Ac eithrio mewn perthynas â chamliwio twyllodrus, mae'r Contract hwn yn sefydlu dealltwriaeth lwyr y partïon mewn perthynas â'r Archeb ac yn disodli'r holl gytundebau, negodiadau a thrafodaethau blaenorol rhwng y partïon. Mae unrhyw atodlenni yn rhan o’r Contract hwn.

**34 Gwahoddiad i lenwi ffurflen monitro amrywiaeth Diamond**

34.1 Mae darlledwyr a Creative Diversity Network (CDN) yn monitro amrywiaeth ar deledu'r DU drwy Diamond. Mae buddiant dilys i gasglu gwybodaeth am amrywiaeth yn ein diwydiant, ac os byddwch Chi yn rhoi Eich enw a’ch cyfeiriad e-bost bydd BBCSPL yn eu cynnwys mewn system o’r enw Silvermouse a byddwch Chi yn cael gwahoddiad i ddarparu eich nodweddion amrywiaeth Chi, neu os ydych Chi yn rhiant neu’n warcheidwad i gyfrannwr sy'n blentyn o dan 18 oed, i ddarparu nodweddion amrywiaeth Eich plentyn, ac mae’r nodweddion y gofynnir i Chi eu darparu yn dibynnu ar oedran. Y darlledwyr a CDN, fel rheolyddion data, sy’n gyfrifol am y data hwn a byddant yn cadw Eich enw a chyfeiriad e-bost at y diben hwn ar Silvermouse gyhyd ag y byddant yn monitro amrywiaeth. Mae gwybodaeth hefyd yn cael ei chasglu ynglŷn â chanfyddiad gwylwyr o amrywiaeth ar y sgrin. Mae rhagor o wybodaeth am Diamond ar gael yma. Os byddai’n well gennych Chi beidio â bod yn rhan o broses Diamond, rhowch wybod i’ch cyswllt Chi yn y cynhyrchiad cyn pen 7 diwrnod i ddyddiad cyhoeddi’r Contract hwn.

**35 Cyfraith lywodraethu**

35.1 Caiff y Cytundeb hwn ei lywodraethu a’i ddehongli yn unol â chyfreithiau Cymru a Lloegr ac mae pob parti’n ildio i awdurdodaeth benodol Llysoedd Cymru a Lloegr.

Nodiadau esboniadol

[1] Nodyn i’r cyfrannwr: Mae gan BBCSPL ddyletswydd statudol i asesu statws cyflogaeth at ddibenion treth. Gellid cosbi BBCSPL os na fydd yn dilyn canllawiau CThEF.

[2] Nodyn i’r cyfrannwr: Bu amgylchiadau yn y gorffennol lle mae cyfrannwr wedi cael ei ordalu, er enghraifft oherwydd camgymeriad gan BBCSPL neu oherwydd bod y cyfrannwr wedi methu darparu’r holl wasanaethau o dan gontract, mae’r cymal hwn yn galluogi’r cyfrannwr i ddychwelyd yr arian yn rhwydd iawn ar gyfer pobl sy’n talu ffi’r drwydded gan fod y cymal yn caniatáu i BBCSPL ddewis ei ddidynnu o’r ffioedd sy’n daladwy o dan y contract hwn.

[3] Nodyn i’r cyfrannwr: Safon y farchnad yw cael indemniadau ar gyfer treth incwm a chyfraniadau yswiriant gwladol y gellir eu priodoli’n briodol i’r unigolyn dan sylw. Mae’r atebolrwydd economaidd dros dalu treth ac yswiriant gwladol yn aros gyda’r cyfrannwr hyd yn oed os mai’r sawl sy’n ymgysylltu, sef BBCSPL yn yr achos hwn, sydd dan rwymedigaeth gyfreithiol i wneud didyniadau a rhoi cyfrif i CThEF mewn perthynas â hynny.

BBC STUDIOS